# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## CYNADLEDDAU

### Dysgu proffesiynol i gefnogi cynnydd drwy'r cyfnod pontio 3-16

**Sesiwn diwrnod llawn i benaethiaid ac aelodau uwch dimau arwain - sylwch mai sesiynau newydd yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio yn dilyn adborth o sesiynau Pontio GwE y llynedd.**

10/11/2023 9:15-15:30

Canolfan Fusnes Conwy

Darperir cinio

Anfonir agenda lawn maes o law.




**Cliciwch ar y dolenni uchod i gofrestru.**

Cyfyngir llefydd i 2 uwch arweinydd o bob ysgol.

### Ysgrifennu: Strategaethau ar gyfer Cynnydd mewn Ysgrifennu [8-11 oed]

13/11/2023 | 13:30 - 16:30

Venue Cymru, Llandudno

COFRESTRWCH



Ar gyfer oedran cynradd 8-11: prynhawn gyda Shirley Clarke. Bydd yn trafod pwysigrwydd pennu meini prawf llwyddiant ar y cyd â'ch dysgwyr, gan ganolbwyntio ar bwrpas ac effaith gwneud hynny yn effeithiol. Bydd hefyd yn trafod sut mae darparu adborth effeithiol er mwyn gwella ansawdd ysgrifennu, a sut mae gwneud hynny drwy rannu sylwadau parhaus â dysgwyr yn ystod sesiynau ysgrifennu.

## Datblygu Cariad at Ddarllen gyda Neil Griffiths

Nid yw'r cyfle i wrando ar Neil yn codi yn aml – gwnewch bob ymdrech i fynychu'r digwyddiad i wrando ar y siaradwr ysbrydoledig hwn! Heb unrhyw amheuaeth, bydd yn sicr yn dylanwadu ac yn cael effaith ar eich darpariaeth ddarllen. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER | | DOLEN I GOFRESTRU | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13/11/2023 | Holiday Inn, A55 | LLAWN | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | | PRYNHAWN |
| 14/11/2023 | Clwb Pêl-Droed Porthmadog | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |
| 15/11/2023 | M-Sparc, Gaerwen | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |
| 16/11/2023 | Canolfan Fusnes Conwy | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |

## Cynhadledd i Athrawon Dyniaethau Uwchradd

16/11/2023 | 9:15 - 15:30 Festival Church Towyn, 87 Gors Road, Towyn, Abergele, LL22 9NR

Bydd cyfle i athrawon wrando ar gyflwyniadau a rhannu arferion addawol. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Rydym yn falch iawn o gyflwyno ein **Cynnig Dysgu Proffesiynol** i chi ar gyfer y flwyddyn addysgol 2023-24. Yma cewch wybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion gyda'r egwyddorion canlynol yn greiddiol:

- Cefnogi Arweinwyr i arwain gwelliannau yn y maes dan sylw;
- Cefnogi Ymarferwyr i gynnig darpariaeth lawr dosbarth effeithiol;
- Cefnogi'r system i rannu llwyddiannau a dysgu o'i gilydd.

Yn ogystal, mae egwyddorion ein Cynnig wedi'u seilio ar hyrwyddo dysgu a datblygiad proffesiynol ar dair haen:

- Cefnogaeth benodol a phwrpasol i ysgolion unigol.
- Cefnogaeth leol drwy glystyrau, cynghreiriau a rhwydweithiau.
- Cynnig Dysgu Proffesiynol generig sydd ar gael i bawb ar draws y rhanbarth.

Mae'r catalog hwn yn ddogfen fyw. Mae'n cynnwys dyddiadau cyrsiau a hyfforddiant ble mae rhai eisoes wedi eu pennu neu'n awgrymu, lle'n bosibl, pryd fydd y sesiynau yma yn debygol o gael eu cynnal. Bydd y catalog yn cael ei ddiweddaru a bydd fersiynau cyfredol dilynol yn cael eu cyhoeddi yn gyson.

Cadwch olwg ar dudalen **Cynnig Proffesiynol GwE** ar ein gwefan. Mae'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

# RHAGLENNI CENEDLAETHOL

## Mentoriaid Sefydlu [MS]

[CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I FENTORIAID SEFYDLU [MS]: 2023-2024]

## Gwirwyr / Mentoriaid Allanol [GA / MA]

[CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I WIRWYR / MENTORIAID ALLANOL [GA / MA]: 2023-2024]

**Cysylltwch ag Ieuan Jones, GwE, gydag unrhyw ymholiadau:** ieuanjones@gwegogledd.cymru

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA




## Rhaglen Datblygu Darpar CALU



Mae Cylch 8 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Ionawr 2024.

Y **DYDDIAD CAU** yw **24/11/2023**.

**Cliciwch yma** am fwy o wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams, Cydlynydd LlDGA.

## Rhwydwaith i Gymorthyddion Addysgu

**07/11/2023 15:45-16:15** **YMUNWCH**

Sesiwn anffurfiol ddwyieithog i rannu gwybodaeth ac arfer dda.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag **Elin Hutchinson**.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol [PYPC]

**CYLLID AR GAEL I YSGOLION**

A oes gan eich ysgol chi ddiddordeb mewn datblygu athrawon i fod yn ymholwyr proffesiynol?

A oes gennych chi ddiddordeb mewn defnyddio sgiliau ymchwil ac ymholi fel rhan o werthuso eich gwaith Cwricwlwm i Gymru a'ch darpariaeth ehangach? **Gwybodaeth lawn ar gael yma.**

## Prosiect i werthuso Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar: Gwerthuso ymyrraeth Darllen Ailadroddol [iFOR]

Gwahoddir ysgolion i gymryd rhan mewn gwerthusiad o effeithiolrwydd Darllen Ailadroddol, i ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2024. **Ceir rhagor o fanylion yma.**

Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng GwE a CIEREI, Prifysgol Bangor, yn rhan o'n darpariaeth darllen sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a grynhoir yma. Dilynwch y **ddolen hon** i ganfod mwy ac i fynegi diddordeb.

## Allwch chi helpu i wella'r sylfaen dystiolaeth yng nghyd-destun dysgu sillafu?

**Rydym ni'n chwilio am arweinwyr llythrennedd mewn ysgolion cynradd i gwblhau ein holiadur i'n helpu ni i wella'r ddarpariaeth ar gyfer sillafu yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

Os ydych chi'n arweinydd llythrennedd neu'n gyfrifol am ddarpariaeth sillafu mewn ysgol gynradd, a fyddech cystal â'n helpu ni i gael darlun manwl gywir o'r ddarpariaeth bresennol trwy gwblhau ein holiadur. Gallwch ddilyn y **ddolen hon**.

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Rhwydwaith i holl ymarferwyr y Celfyddydau Mynegiannol



**28/11/2023 | 15:30-16:30** [YMUNWCH]

Sesiwn anffurfiol dros [MS Teams] i rannu gwybodaeth ac arfer dda. **Cyfrwng Cymraeg.**

## Cyfuno sgiliau digidol a llythrennedd ar draws y cwricwlwm

Ydych chi angen datblygu sgiliau digidol, llafaredd ac/neu sgiliau llythrennedd ehangach yn eich ysgol? Ydy'r meysydd hyn yn eich CDY ac a ydych chi eisiau datblygu sgiliau llythrennedd eich dysgwyr gan ddefnyddio ystod eang o lwyfannau digidol e.e. podlediadau, ffeithluniau, cynhyrchu fideos, dylunio gwefannau, animeiddiadau a mwy?

Mae'r rhaglen dridiau 'Cyfuno sgiliau digidol a llythrennedd ar draws y cwricwlwm' yn addas ar gyfer unrhyw ymarferydd. Bydd y dysgu proffesiynol hwn yn:

- cyfoethogi'r ddarpariaeth mewn sgiliau Llafaredd a Digidol trwy wella'r canlyniadau yn y ddau faes
- ehangu cynllunio a chymhwyso darpariaeth ddigidol yn bwrpasol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a phwnc
- addas ar gyfer arweinwyr ac athrawon o bob sector sy'n dymuno datblygu eu darpariaeth.

[Sesiwn cyfrwng Cymraeg]



**Diwrnod 1:** 09/11/2023 Penrallt, Caernarfon 9.30-15:30

**Diwrnod 2:** 11/01/2024 **Diwrnod 3:** 07/03/2024

## Cwricwlwm i Gymru: O'r Dylunio i'r Adrodd, ac yn ôl eto

Bwriad y gweithdy hwn yw cefnogi uwch arweinwyr ysgolion uwchradd i fyfyrio ar agweddau ar ddylunio, cynllunio, addysgu a deialog broffesiynol ac asesu.

Anelir y gweithdy at arweinwyr ysgolion uwchradd sydd â chyfrifoldeb am agwedd ar y cwricwlwm newydd fel: dylunio, cynllunio ar gyfer cynnydd, galluogi deialog broffesiynol i gefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd, asesu ac adrodd i rieni. Bydd y gweithdy yn un rhyngweithiol a llawn gwybodaeth.

27/11/2023 9:00-12:30 Bwyty White House, Rhuallt [CYFRWNG SAESNEG]

28/11/2023 9:00-12:30 Venue Cymru, Llandudno [CYFRWNG CYMRAEG]

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Cynradd 8-11

Disgrifiad: Bwriad y rhaglen yw rhannu syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn y maes dysgu gan edrych ar sut y gallwn wreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn ehangu'r dysgu.

Mae hwn yn rhaglen datblygiad proffesiynol a gynhelir dros 3 diwrnod. **Bydd rhaid i chi fynychu'r 3 diwrnod.**

[Manylion llawn a chofrestru].

**Diwrnod 1**: 30/11/2023 - Plas Menai, Caernarfon

**Diwrnod 2**: 23/02/2024 - Plas Menai, Caernarfon

**Diwrnod 3**: 11/04/2023 - Plas Menai, Caernarfon

## Gweithdy Mathemateg ar gyfer athrawon Cynradd ac Uwchradd

Bydd Craig Barton yn dychwelyd i Ogledd Cymru i arwain gweithdy mathemateg ar strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol i ymarferwyr cynradd ac uwchradd.

Bydd y gweithdy yn edrych ar:

- strategaethau ymarferol i adnabod, blaenoriaethu ac asesu gwybodaeth flaenorol berthnasol ar gyfer cysyniad newydd; a sut i ymateb i'r asesiadau hyn
- esbonio a modelu syniadau newydd i'n dysgwyr
- technegau i fodelu'n effeithiol
- defnyddio egwyddorion atomeiddiad, amrywiad a chyfarwyddyd uniongyrchol i roi'r cyfle gorau posibl i'n myfyrwyr ddeall syniadau allweddol.

**Mae lleoedd yn gyfyngedig, a byddant yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i gofrestru.**

01/02/2024 8:45-15:30 Venue Cymru, Llandudno **COFRESTRU**

## Sut mae cynnydd yn edrych i ddisgyblion mewn lleoliadau arbenigol?

**[YSGOLION ARBENNIG, UCD A CHANOLFANNAU ADNODD]**

Anelir yr hyfforddiant at athrawon, CGADY a staff cymorth sydd eisiau ystyried beth yw ystyr cynnydd a sut mae'n edrych o fewn lleoliad arbenigol. Yn y gweithdy hwn, caiff ymarferwyr gyfle i ddysgu a myfyrio ar yr egwyddorion cynnydd, a sut y gellir eu defnyddio ar draws lleoliadau arbenigol.

22/11/2024 9:15-15:30 Venue Cymru, Llandudno **COFRESTRU**

## Sut ydym ni'n cefnogi dysgu annibynnol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth?

**[YSGOLION ARBENNIG, UCD A CHANOLFANNAU ADNODD]**

Anelir yr hyfforddiant at athrawon, CGADY a staff cymorth sydd eisiau gwella eu gwybodaeth ynghylch hyrwyddo annibyniaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth. Yn ystod y sesiwn, canolbwyntir ar strategaethau i ddatblygu a hybu dysgu annibynnol gyda dysgwyr sydd yn gweithio o fewn 'Ar Drywydd Dysgu' a 'Cham Cynnydd 1'.

29/11/2024 9:15-15:30 Venue Cymru, Llandudno **COFRESTRU**

## Cylchlythyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd

Dyma ein **Cylchlythyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd** cyntaf ar gyfer Hydref 2023. Gan mai megis cychwyn y Rhwydwaith yr ydym ni, bwriad y Cylchlythyr cyntaf yw rhannu:

- Beth yw ein gobeithion ni ar gyfer y Rhwydwaith.
- Beth ddigwyddodd yn ystod ein cyfarfod cyntaf.
- Beth yw ein bwriadau wrth symud ymlaen fel Rhwydwaith.

Wrth symud ymlaen byddwn yn ehangu ymhellach ar gynnwys y Cylchlythyr er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol â chi ac i raeadru a chyfeirio at arferion sy'n llwyddiannus.

Bydd y Cyfarfod Rhwydwaith nesaf yn digwydd ar 17/11/2023 am 9:15-12:00 yng Nghanolfan Fusnes Conwy. Cliciwch yma i gofrestru.

Rydym wedi creu gofod TEAMS ar gyfer y Rhwydwaith, ac ein bwriad yw defnyddio'r llwyfan hon i gyfathrebu ein prif negeseuon ac rhannu syniadau gyda'n gilydd.

## Ydych chi am symud ymlaen gyda Cariad@Ddarllen yn eich ysgol eleni?

05/12/2023 | 9:15-12:30 Venue Cymru, Llandudno [COFRESTRWCH]

Dewch i ymuno â chyd-weithwyr am y bore i gael clywed am eu taith, y cynnydd a wnaed wrth greu diwylliant ar gyfer cariad@ddarllen a'r strategaethau a roddwyd ar waith i weithredu hyn. Byddwn yn rhannu eich llwyddiannau a'ch canfyddiadau ac yn dysgu mwy am sut y gallwn hyrwyddo'r cyswllt hanfodol hwn yn nhaith ddarllen dysgwyr er mwyn dod â nhw'n nes at fod yn ddarllenwyr llwyddiannus.

Bydd y rhwydwaith hwn yn parhau drwy gydol y flwyddyn er mwyn dod â ni ynghyd i edrych ar strategaethau ac adnoddau mwy effeithiol. Cawn gyfraniad arbenigol gan academyddion ac addysgwyr ym maes darllen. Yn y cyfarfod hwn ym mis Rhagfyr, bydd yr Athro Manon Jones o Brifysgol Bangor yn rhannu sut mae dysgwyr yn datblygu sgiliau darllen allweddol, a sut y gallwn roi strategaethau a pholisi ar waith yn effeithiol i gefnogi ein dysgwyr.

## Bwletin GwE Digidol

**Cliciwch yma** am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Tîm Digidol.



## Cyfarfodydd Rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr ac Athrawon / Cymorthyddion sy'n Addysgu'r Oedran 3-8 oed

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ymwneud â'r oedran 3 i 8, a rhennir arferion llwyddiannus hefyd.

**Ffocws y Rhwydwaith:** Digidol – Syniadau ar sut i sicrhau cynnydd mewn sgiliau digidol o fewn y ddarpariaeth i ddisgyblion 3 i 8 oed.

**'Does dim angen cofrestru ar gyfer y cyfarfodydd rhwydwaith. Gall ymarferwyr fynychu unrhyw leoliad.**

| DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | IAITH |
|---|---|---|---|
| 13/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Cymerau, Pwllheli | Cymraeg |
| 20/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst | Cymraeg |
| 21/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Maesincla, Caernarfon | Cymraeg |
| 22/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Bro Idris, Dolgellau [Y Prif Safle] | Cymraeg |
| 23/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych | Cymraeg |
| 27/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Corn Hir, Llangefni | Cymraeg |

## Tuag at 2024: Datblygu Dysgu ac Addysgu o Ansawdd Uchel [Athrawon 8-11 oed]

Pwrpas y prosiect peilot yw cydweithio ag athrawon ystod oedran 8-11 i gryfhau a chefnogi prosesau hunan werthuso a gwella ysgolion ymhellach wrth iddynt wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Gwneir hyn drwy werthuso a datblygu dulliau cwricwlwm, cynnydd ac addysgeg. **Manylion llawn ar gael yma**.
Cwblhewch y **ffurflen hon** i fynegi diddordeb neu gallwch gysylltu ag iwantaylor@gwegogledd.cymru



## Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

**Canolfan Cefnogaeth GwE**: Ieithoedd Rhyngwladol – **Sector Cynradd** a **Sector Uwchradd**

Am fwy o wybodaeth am y rhaglen Dyfodol Byd-eang, cysylltiadau o fewn y tîm, dolenni at bartneriaid a newyddlenni blaenorol, cliciwch yma: **Ieithoedd Tramor Modern - GwE (gwegogledd.cymru)**

**DOLENNI DEFNYDDIOL:** Cysylltiadau a Dolenni **Newyddlen**: Cynradd | Uwchradd

**Cliciwch yma am y wybodaeth ddiweddaraf**

**DYSGU PROFFESIYNOL I YMARFERWYR YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD**

### Fforymau IRh Cynradd Newydd

**Cliciwch yma** ar gyfer yr holl wybodaeth ac i gofrestru.

### Cyfarfodydd Rhwydwaith IRh Uwchradd

**Cliciwch yma** ar gyfer yr holl wybodaeth ac i gofrestru.

### Sesiynau gyda Llysgenhadon Iaith Routes Cymru

Bydd Llysgenhadon Iaith Routes Cymru ar gael i roi sgyrsiau a sesiynau i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru ar ôl hanner tymor mis Hydref 2023. Gall ysgolion gael mwy o fanylion a chofrestru i gael y sesiynau hyn ar **wefan Routes Cymru** neu drwy anfon e-bost i info@routesintolanguagescymru.co.uk erbyn **17/11/2023**

### Uwch-sgilio iaith: Cyrsiau Ffrangeg a Sbaeneg ar-lein i athrawon cynradd

Datblygiad proffesiynol ysgogol a difyr i athrawon! Datblygiad Proffesiynol yn eich pwysau eich hun.
Ar gyfer athrawon sydd â dim neu fawr ddim gwybodaeth o'r iaith y mae'n rhaid iddynt ei chyflwyno.
Ailfuddsoddwch eich dysgu yn uniongyrchol gyda'ch dosbarth!
Mae podlediadau ac animeiddiadau hefyd sydd yn ymwneud ag elfen ddiwylliannol.
Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb, **cliciwch yma**.

# Y GYMRAEG

## Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion: 07/11/2023

**CYNLLUNIO DATBLYGIAD IAITH GYMRAEG I YMARFERWYR**

Bydd y **rhestr chwarae** hon yn helpu arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir ar Sgiliau Iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg** wrth gwblhau'r **Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)**, ac yn eu helpu i gynllunio dysgu proffesiynol addas i ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol. **Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Hwb i gael mynediad at y rhestr chwarae hon.**

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** Pa lefel ydw i?

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. **Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg**

**Angen mwy o wybodaeth?** Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | sianparryeirug@gwynedd.llyw.cymru | **Ynys Môn** | OwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Conwy** | diane.evans@conwy.gov.uk | **Sir Ddinbych** | gareth.williams@denbighshire.gov.uk |
| **Sir y Fflint** | rhian.roberts@flintshire.gov.uk | **Wrecsam** | Dwynwen.Jones@wrexham.gov.uk |
| **GwE** | SgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru | | |

## Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

**CWRS UWCH AR GYFER CYMORTHYDDION [EBRILL-GORFFENNAF 2024]**

Ydych chi'n siaradwr eithaf rhugl [Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]? Angen mwy o wybodaeth? Cliciwch yma.

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

## Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*

Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*, yw'r cyntaf mewn cyfres o bodlediadau gan Dîm Cyflawni Potensial y Consortiwm. I gael rhagor o fanylion ac i gyrchu'r podlediad, cliciwch ar y **ddolen hon**.

## Dysgu Proffesiynol Trawsranbarthol ar y Cwricwlwm i Gymru

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Mae'r **Rhaglen ar gyfer 2023/2024** bellach wedi'i chyhoeddi, gweler y **llyfryn** am ddyddiadau allweddol a dolenni i'r sesiynau rhithiol.

### SESIYNAU ASESU

Mae sesiynau ar gael i Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr/Athrawon Canol gyda phwyslais ar ddilyniant ac asesu. Bydd y sesiynau hyn yn cynnig cymysgedd o adolygu canllawiau polisi a chymorth ymarferol i ymarferwyr.

| SESIWN | AMCANION Y SESIWN | DYDDIAD |
|---|---|---|
| Beth yw ein cynllun hirdymor ar gyfer cynnydd? | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Ystyriaethau ar gyfer cynllunio hirdymor ar gyfer cynnydd, gan gynnwys pa mor aml y gellir ailedrych ar gysyniadau allweddol y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig<br>• Archwilio dulliau o gynllunio ar gyfer cynnydd ac asesu mewn gwahanol ddisgyblaethau a meysydd<br>• Gosod bwriadau dysgu i gefnogi cynnydd yn y tymor byr i'r tymor canolig | 23/11/2023 |

**Bydd pob sesiwn yn cael ei recordio ac ar gael i'w gwylio eto yn anghydamserol ar y ddolen hon: Consortia Addysg Cymru - Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru**

### SESIYNAU MDaPh

Mae sesiynau penodol wedi'u cynllunio i'ch cefnogi efo datblygu dysgu ac addysgu ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn benodol dyma'r arlwy tymor yma:

| SESIWN | AMCANION Y SESIWN | DYDDIAD |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Sut i ddatblygu'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy waith clwstwr, gan ganolbwyntio ar gynllunio cwricwlwm 3-16,gydag enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 26/10/2023 |
| Iechyd a Lles | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Ddylunio cwricwlwm trosfwaol ar gyfer y MDaPh Iechyd a Lles<br>• Prosesau a myfyrdodau yng nghyd-destun datblygu'r Maes Iechyd a Lles, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 07/11/2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Y Celfyddydau Mynegiannol | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn disgyblaethau yn y MDaPh Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 16/11/2023 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn clystyrau, gan ganolbwyntio ar gynnydd o fewn cwricwlwm 3-16, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 21/11/2023 |
| Y Dyniaethau | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Sut i gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn MDaPh y Dyniaethau, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 27/11/2023 |
| Mathemateg a Rhifedd | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynnydd ac asesu o fewn y MDaPh Mathemateg a Rhifedd, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 06/12/2023 |

Gallwch ymuno â'r sesiynau trwy ddolenni yn y **Rhaglen yma**.

Mae sesiynau Cymraeg a Saesneg ar gael. Mae sesiynau hefyd yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol. Byddant hefyd ar gael i chi yn anghydamserol ar y **wefan hon**.

## Rhaglen Cymell a Mentora Genedlaethol

Lleoedd ar gael y tymor hwn ar y Rhaglen Cymell a Mentora Genedlaethol. Am ragor o wybodaeth, **cliciwch yma**.
I gofrestu, cwblhewch y ffurflen **hon**.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyfle i fod yn rhan o'r Panel Ardystio Cenedlaethol NEWYDD yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan ymarferwyr profiadol i fod yn aelodau craidd o Banel Ardystio Cenedlaethol newydd sydd yn cael ei arwain gan yr Athro Ken Jones. Bydd gan y Panel rôl allweddol o ran sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu proffesiynol i bob ymarferydd addysgol yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion ar gael drwy'r **pecyn gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr.**

## Ysgolion Bro: Ymgysylltu â'r Gymuned

21/11/2023 | 14:00-15:00

Bydd y **digwyddiad hwn** yn canolbwyntio ar bolisi ac ymarfer Ymgysylltu â'r Gymuned yng nghyd-destun Ysgolion Bro. Bydd y digwyddiad yn rhoi trosolwg o ganllaw Llywodraeth Cymru **Datblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned mewn Ysgolion Bro**, gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol.
I gael mynediad i'r 'Digwyddiadau Mewnwelediad Polisi' yn fyw, cwblhewch y **ffurflen gofrestru ar-lein**

**Ymgynghoriad**

**Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r Daith**

**Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd**

**Canllaw** **Datganiad i'r Wasg**

## Ymchwil GEM Cymru i Ddysgu Treftadaeth a'r Cwricwlwm Newydd

Yn rhan o waith a ariennir gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, mae'r Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd yn dechrau gwerthuso a dadansoddi canlyniadau/effaith y prosiectau a gynhaliwyd yng Nghymru er 2021. Mae hyn yn cynnwys adolygu pa mor llwyddiannus yw dysgu treftadaeth yn y Cwricwlwm i Gymru a sut mae ysgolion yn ymgysylltu ag amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd astudiaethau lleol, gan nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac ystyried anghenion cymorth ar gyfer lleoliadau treftadaeth lleol wrth symud ymlaen.

A fyddech cystal â rhoi eich barn ar y tri maes allweddol hyn:

- Ers cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a ydych chi'n meddwl bod ysgolion yn ymgysylltu mwy â'u treftadaeth leol? Os felly, sut?
- Yn eich barn chi, beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer gwasanaethau dysgu treftadaeth wrth symud ymlaen (yn ymwneud â CaW)?
- Sut ydych chi'n gweld y berthynas rhwng ysgolion a lleoliadau treftadaeth lleol yn newid dros y blynyddoedd nesaf? A yw wedi newid eto?

Os hoffech drafod eich syniadau ymhellach, cysylltwch â **Robin Johnson**.

GEM We connect & learn together · Ariennir gan Lywodraeth Cymru · Funded by Welsh Government

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Arolwg Arweinyddiaeth Genedlaethol

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gofyn i arweinwyr o bob rhan o'r system addysg yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion, y sector gwaith ieuenctid a'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) rannu eu barn, a'u profiadau yn eu Harolwg Arweinyddiaeth Genedlaethol cyntaf.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth y mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn ei chasglu i lywio – a herio – polisi ac arfer ar draws y system addysg. Bydd yr arolwg hefyd yn rhoi cipolwg ar sut mae arweinwyr yn ymgysylltu â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ar hyn o bryd fel y gallant wella'r ffordd y maent yn cefnogi ac yn datblygu arweinyddiaeth addysgol ledled Cymru.

**Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau. Dweud eich dweud a chwblhewch yr arolwg.**

## Cystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 2023-24

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig · Welsh Heritage Schools Initiative

**Y GYSTADLEUAETH | WHSI**

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn trefnu cystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru gan gynnig nifer o wobrau ariannol hael. Dyma gyfle gwych i'ch disgyblion rannu eu hymchwiliadau am eu cynefin gyda chynulleidfa ehangach a defnyddio eu sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol! Croeso i chi gysylltu os ydych am sgwrs bellach. (bethanjames@gwegogledd.cymru neu jamesb143@hwbcymru.net)

## Dadansoddi Data Busnes: Beth ydyw a phwy ddylai ei astudio?

Yn y digwyddiad hwn byddwn yn edrych ar y cwrs newydd sy'n cael ei gynnig yma ym Mhrifysgol Bangor, BSc Dadansoddi Data Busnes. Mae Dadansoddi Data Busnes yn faes sy'n tyfu o fewn y byd busnes gyda rhagolygon gyrfa gwych ar gyfer graddedigion. Yn y sesiwn hon byddwn yn plymio'n ddyfnach i'r hyn y bydd myfyrwyr yn ei ddysgu ar y cwrs, pa sgiliau y gall myfyrwyr ddisgwyl eu dysgu a phwy ddylai feddwl am astudio'r cwrs hwn.

Mi fydd y sesiwn hon drwy'r Saesneg. Os hoffech drafod y cwrs trwy'r Gymraeg ebostiwch rhian.thomas@bangor.ac.uk.

21/11/2023 · 18:00-19:00 · Digwyddiad Arlein · **COFRESTRU**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Cyfleoedd i ysgolion gymryd rhan yn arlwy rhaglen Dysgu Creadigol Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn falch o lansio cyfleoedd pellach i ysgolion GwE gymryd rhan yn eu rhaglenni dysgu creadigol a chelfyddydol. Gweler isod manylion am yr holl grantiau byw presennol a sut i ymgeisio:

- Ysgolion Creadigol Arweiniol (Dyddiad cau: 11 Ionawr 2024): https://arts.wales/cy/ariannu/dysgu-creadigol/cynllun-ysgolion-creadigol-arweiniol
- Cynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol (Dyddiad cau: 14 Tachwedd 2023): https://arts.wales/cy/cynefin-cymru-ddiwylliannol-ac-ethnig-amrywiol
- Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol (Dyddiad Cau: 26 Hydref 2023): https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/cyfle-wedii-ariannun-llawn-i-ymuno-ar-rhaglen-arweinyddiaeth-greadigol
- Ewch i Weld (grant parhaus): https://arts.wales/cy/ariannu/dysgu-creadigol/ewch-i-weld

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In partnership with Welsh Government